**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw**
**gynhaliwyd ar 26 Chwefror, 2008 yn Siambr y Cyngor, Swyddfa Ardal, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd Trevor Roberts (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr W. M. Meredith, Robert J. Hughes (Cyngor Gwynedd), Y Cynghorwyr. Valerie McArdell, R. Aeron Williams (Cyngor Tref Abermaw), Mrs. Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw)

Sylwedydd: Y Cyng. D. C. Richardson (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr. Barry Davies | - | Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Huw Davies | - | Peiriannydd Grŵp |
| Mr Glyn Jones | - | Harbwr Feistr |
| Mr.Mark Stone | - | Cynorthwy-ydd Harbwr |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |
| Mrs. Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd W. Roy Owen, M. L. Vaughan (Cyngor Gwynedd), Dr J Jones Morris (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog).

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Val MCArdell i'w chyfarfod cyntaf a hithau wedi ei henwebu i gynrychioli Cyngor Tref Abermaw fel olynydd i'r Cynghorydd Cadwaladr Williams

(b) Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Wyn Myles Meredith oedd ar fin ymddeol a chymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch iddo am ei gyfraniad a'i gefnogaeth i'r Pwyllgor hwn dros y blynyddoedd.

2. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 9 Hydref 2007.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

3. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**(a) Eitem 4 – Adroddiad y Swyddog Morwrol**

**Adroddwyd:** Gan y Cadeirydd ynglŷn â phenderfyniad (C) ar dudalen 3 o'r cofnodion o safbwynt pryder ynglŷn â chost sicrhau Gorchymyn Cau Ffordd i ddigwyddiadau ar y Promenâd, ei fod wedi cael sicrwydd nad oedd unrhyw daliadau wedi eu codi ar drefnwyr y tri digwyddiad a gynhaliwyd yn Abermaw.

**Penderfynwyd - Nodi'r uchod.**

**(b) <u>Eitem 5 – Materion i'w hystyried ar gais Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol</u>**

**Adroddwyd:** Ynglŷn â phenderfyniad (b) eu bod yn dal i aros am ateb gan Priffyrdd a'r Gwasanaethau Bwrdeistrefol ynglŷn ag os oedd toiledau oedd angen eu dymchwel oherwydd eu cyflwr presennol, y dylid eu hail-adeiladu yn Ardal yr Harbwr er mwyn parhau gyda'r un lefel o ddarpariaeth ag sy'n bodoli ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd: Bod y Swyddog Morwrol yn dod a'r mater i sylw y swyddog priodol.**

4. **<u>ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL</u>**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol**,** Mr. Barry Davies, ar weithgareddau yn harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol i'r canlynol:

(i) Ffioedd a thaliadau
(ii) Datblygiadau Harbwr
(iii) Gwasanaeth Fferi
(iv) Cyllidebau
(v) Mordwyo

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig :

(i) Tywyswyd yr aelodau drwy'r **ffioedd a thaliadau** a gofynnwyd iddynt nodi y byddai cynnydd o 4% mewn ffioedd angorfeydd i drigolion oedd yn byw yn barhaol yng Ngwynedd, gyda'r cynnydd i'r bobl hynny oedd yn byw y tu allan i Wynedd yn 5%. Y gobaith oedd y byddai hyn yn cynorthwyo'r Harbwr i gyrraedd y targed incwm. Roedd y ffioedd a thaliadau i lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Cherbydau Dŵr Personol yn cynyddu ar gyfartaledd o 7%. Roedd y cynnydd cyffredinol yn y targed incwm am 2008/09 yn £62,040, gan gynyddu'r targed incwm cyffredinol i £2,070,880.

(ii) Yng nghyd-destun y **datblygiadau harbwr,** hysbysodd y Swyddog Morwrol y Pwyllgor ei fod yn gwerthfawrogi ac yn croesawu'r brwdfrydedd i gael cyfleusterau ychwanegol yn yr Harbwr ac roedd yn dal i ymchwilio i'r posibilrwydd o adnabod pontŵn fyddai'n addas i'w osod dros dro ar ochr wal y cei ger llithrfa'r harbwr. Gofynnwyd i'r aelodau nodi fod y cyfleuster 'golchi traed' wedi cael ei ail-osod ar y wal y tu allan i Swyddfa'r Fferi, ac os fyddai'n parhau i gael ei fandaleiddio yna byddai'n rhaid i'r Gwasanaethau Morwrol ystyried ei dynnu. Roedd y Gwasanaethau Morwrol wedi archwilio'r llithrfa ac roeddent o'r farn fod ei chyflwr cyffredinol yn dda o'i gymharu gyda'r llithrfeydd eraill ar hyd yr arfordir. Nodwyd ymhellach fod yr ôl-gerbyd oedd yn cael ei ddefnyddio yn flaenorol i lansio cychod hwylio ar y llithrfa hon bellach ddim yn cael ei ddefnyddio a'r gobaith oedd y byddai hyn yn lliniaru unrhyw niwed yn y dyfodol. Roedd yr holl bwyntiau trydan wedi eu harchwilio a'u haddasu i sicrhau fod y cyfleuster yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau modern. Roedd yr uned Teledu Cylch Cyfyng yn gweithio'n foddhaol ac roedd y Gwasanaethau Morwrol yn gwerthfawrogi'r cyfraniad wnaed gan ddefnyddwyr yr harbwr.

(iii) Yng nghyd-destun y **gwasanaeth fferi,** fod y Gwasanaeth Morwrol wedi llunio ffurflenni archwilio perthnasol ynghyd â rhestr offer i berchnogion. Gofynnwyd i'r aelodau nodi y gellir ond defnyddio'r Uned Forwrol i drwyddedu cychod i weithredu ar ddyfroedd Abermaw oedd yn yr ardaloedd wedi eu categoreiddio. Cyfeiriwyd at y Deddfau perthnasol ynglŷn â gweithredu cychod o'r fath ac fe fyddai'r Harbwr Feistr neu staff cymwys a phrofiadol eraill yn cynnal unrhyw brofion morwriaeth ar y Cychwr cyn cyflwyno trwydded.

(v) Yng nghyd-destun y **gyllideb,** rhagwelwyd y byddai gorwariant o **£19,000** yn Harbwr Abermaw erbyn diwedd Mawrth ac roedd hyn yn achosi pryder difrifol. Rhagwelwyd hefyd na fyddai'r incwm yn cyrraedd y targed. Aeth y Swyddog Morwrol yn ei flaen i esbonio sefyllfa ariannol yr awdurdod o safbwynt yr angen i wneud arbedion ym mhob pennawd cyllideb. Roedd hyn yn golygu fod angen i'r aelodau wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â gwasanaethau a bod angen i'r Gwasanaeth Morwrol wneud newidiadau radical i gwrdd â'r arbedion a amcangyfrifwyd.. Aeth rhagddo i ddweud y byddai 2008/09 yn heriol iawn, yn arbennig i Abermaw, gan y byddai angen goresgyn y gorwariant a'r diffyg mewn incwm yn enwedig o ystyried hinsawdd ariannol yr Awdurdod.

(ti) Yng nghyd-destun **mordwyo,** bod yr holl gymhorthion wedi parhau yn eu lle yn ystod rhan gyntaf misoedd y gaeaf. Mynegwyd pryder am y marciau mordwyo sy'n eiddo i Ddŵr Cymru, sydd angen gwaith cynnal a chadw. Roedd Trinity House wedi nodi'r gwaith cynnal a chadw oedd angen ei wneud a'r gobaith oedd y byddent yn hysbysu Dŵr Cymru am y gofyniad i edrych ar ôl y marcwyr. Cytunodd y Swyddog Morwrol i ysgrifennu at Trinity House i ofyn iddynt fynd ar ôl Dŵr Cymru am y mater brys yma.

**Penderfynwyd:- (A) Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

**(B) Gofyn i'r Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i ysgrifennu at Trinity House gan ofyn fod Dŵr Cymru yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw i'w marciau mordwyo fel bod y gofynion modrwyo yn cwrdd â'u gofynion hwy.**

5. **MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

Ystyriwyd y materion a ganlyn, oedd heb eu cyfeirio at y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymlaen llaw, a heb eu trafod yn ystod y cyfarfod hwn a chafwyd ymateb y swyddog iddynt:-

(1) Pontynau - unwaith eto gwnaed cais am ryw fath o bontŵn dros dro i'w leoli ger ochr wal y cei gan fod llaid meddal yn cronni yn yr ardal yma.

(2) Dal angen trwsio'r brif lithrfa. Nid oedd ei llenwi gyda choncrid i weld yn ateb y broblem- – *Roedd yr Uned Forwrol am wneud sylwadau am hyn ond nid oeddent yn cytuno fod y brif lithrfa angen ei haddasu.*

(3) Roedd y gwaith carthu wedi bod yn llwyddiant ond yn awr roedd angen parhau i wneud y gwaith ar hyd y wal - *Bu buddsoddi sylweddol dros gyfnod byr o amser ond ar hyn o bryd dywedwyd nad oedd arian i wneud rhagor o waith carthu. Roedd y buddsoddiad gan Gyngor Gwynedd dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod dros 30K.*

(4) Nodwyd fod angen trwsio'r llithrfa ym mhen pellaf y Promenâd. *Roedd cryn wrthwynebiad yn lleol i ddefnyddio'r ramp fynedfa i'r traeth yn yr ardal yma ac felly roedd yr Uned Forwrol yn gyndyn o ail-agor y ramp fynedfa i lansio cychod pŵer.*

(5) Dylid cadw golwg a goruchwylio pysgota efo gwialen o wal yr Harbwr. *Rhoddodd yr Harbwr Feistr sicrhad i'r aelodau nad oedd am beidio annog pysgotwyr i bysgota oddi yno, ond roedd yn rhaid i'r pysgotwyr a'r hwylwyr gyfaddawdu. Ni fyddai monitro pysgota efo gwialen o ochr y cei yn flaenoriaeth gan nad oedd y gweithgaredd yn achosi unrhyw niwed na pherygl i ddefnyddwyr eraill yn yr harbwr.*

(6) Roedd y gwaith bloc yn yr harbwr yn dal i fod mewn cyflwr gwael. Cyn gynted ag y mae hi'n bwrw glaw mae dŵr yn cronni mewn pyllau mawr ac roedd hyn yn gwaethygu yn enwedig o amgylch postyn trydan sied y fferi. *Cytunwyd i edrych ar hyn ond yn y cyfamser fe fyddai'r Swyddog Morwrol yn trafod y mater gyda'r Peiriannydd Grŵp.*

(7) Roedd y twll yn yr ardal ble roedd y disel yn gwaethygu. *Nodwyd fod yr Harbwr Feistr wedi cysylltu â Tywyn Construction am bris i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol.*

(8) Roedd angen diogelu'r ysgolion yn yr harbwr ac roedd yr hen waith haearn yn niweidio cychod. *Dywedodd y Swyddog Morwrol fod ganddynt ddyletswydd i archwilio'r ysgolion ac y byddai'r gwaith archwilio a thrwsio yn cael ei wneud ar unwaith, os oedd ei angen. Byddai'r Harbwr Feistr yn cael cyfarwyddyd i archwilio'r ysgolion yn wythnosol ac i gadw log manwl o bob archwiliad ac unrhyw waith atgyweirio a wnaed.*

(9) Gofynnwyd am gylchoedd angori ychwanegol i glymu cychod ar hyd wal y cei. *Dywedodd y Swyddog Morwrol os gallai'r aelod nodi ble roedd angen y rhain yna fe fyddai staff yr harbwr yn mynd ati i wneud y gwaith cyn dechrau'r tymor hwylio.*

(10) Roedd y toiledau wedi eu peintio ond roedd y goleuadau ynddynt yn dal yn ofnadwy. *Cytunodd y Swyddog Morwrol i gysylltu â Mr Roger Dunn, Peiriannydd Grŵp Bwrdeistrefol gyda chais i wneud rhywbeth am hyn.*

(11) Roedd cartrefi ar olwynion ar y promenâd wedi achosi problemau mawr y tymor diwethaf. *Dywedodd y Cadeirydd fod Gorchymyn wedi ei wneud i godi tâl swyddogol ar y promenâd a hefyd i atal carafannau a chartrefi ar olwynion i barcio ar y promenâd.*

(12) Cyflogau Patrolwyr Traethau. O ble daw'r cyflog yma? *Roedd yr arian i holl swyddi swyddogion traeth yn cael ei adnabod ac yn cael ei gynnwys yn y gyllideb ac roedd atodiadau am y gyllideb ynghlwm i'r rhaglen.*

(13) A ellir anfon y ffurflenni cais o safbwynt angorfeydd cychod hwylio yn gynharach er mwyn archwilio'r angorfa mewn pryd? *Dywedodd y Swyddog Morwrol gyda pharch eu bod yn ceisio anelu i gael y gwaith papur allan ar amser ac yn ychwanegol roeddent yn nodi sawl cwch fyddai ar y dŵr yn ystod y Pasg.*

**Penderfynwyd (a) Derbyn a nodi'r sylwadau wnaed ynghyd ag ateb y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i'r rhain.**

6. **UNRHYW FATER ARALL**

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol, iddo fynd i gyfarfod yn ddiweddar gyda'r Peiriannydd Grŵp, Mr John Williams (Llywodraeth y Cynulliad) a chynrychiolwyr Pwyllgor Basn Harbwr Abermaw. Roedd o'r farn fod y cyfarfod wedi bod yn fuddiol iawn cyn belled ag roedd y swyddogion o dan sylw, a thrafodwyd pethau realistig er mwyn datblygu'r harbwr. Roedd nifer o faterion oedd yn golygu gwariant mawr ac un ohonynt oedd symud y sarn. Er hynny, roedd yr Uned Forwrol yn awyddus iawn i weithio gyda'r Pwyllgor drwy yn y lle cyntaf gael astudiaeth dichonoldeb i wneud mân welliannau fel:

- Adlinio wal y cei a gosod pontŵn yn yr ardal honno
- Gwelliannau i rampiau
- Moderneiddio'r cyfleuster disel

(b) Gan Mrs Wendy Ponsford, fod aelodau Pwyllgor Basn Harbwr Abermaw o'r farn ei fod yn gyfarfod negyddol. Y syniad gwreiddiol oedd carthu'r ardal ger adeilad y Baddondy gan fod yr ardal yma wedi siltio. Teimlwyd er mwyn cael Harbwr cynaliadwy fod angen cynyddu nifer yr angorfeydd ac roeddent wedi gobeithio cael cefnogaeth yn y cyfarfod hwnnw i ymgymryd ag astudiaeth dichonoldeb**.** Gwnaed cais gan Mrs Wendy Ponsford i'r posibilrwydd i'r Uned Forwrol ddarparu manylion o'r gost i symud y sarn.

(c) Gan y Cadeirydd y dylid ail-alw'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru cyn gynted â phosib i drafod hyn ymhellach.

**Penderfynwyd: Nodi'r uchod.**

7. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 7 Hydref 2008.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod**

CADEIRYDD